Urdd

Annwyl Gyfaill, 24/02/16

# Eisteddfod Ddawnsio Rhanbarth Maldwyn – 2 Mawrth 2016.

Gweler isod y wybodaeth fydd angen arnoch ar gyfer Eisteddfod Ddawnsio Rhanbarth Maldwyn. 'Rydym yn eich annog i ddarllen y llythyr yma yn ofalus, mae'n hanfodol eich bod yn trosglwyddo'r wybodaeth sydd yn y llythyr hwn ymlaen at eich cyd-weithwyr a'r rhieni er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r trefniadau.

## Cystadlaethau Dawnsio Ysgolion Uwchradd

Cynhelir yr uchod yn Hafren, Y Drenewydd ar ddydd Mercher, 2 Mawrth, i ddechrau yn brydlon am 13:30 y.h. Pris mynediad fydd £5.

Bydd bandiau braich ar gyfer staff yn cael eu dosbarthu i'r ysgolion cyn yr Eisteddfod.

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, a fyddech gystal â sicrhau fod dau gopi o unrhyw CDs/cerddoriaeth a synopsis yn cael eu gyrru i'r swyddfa yn Y Drenewydd cyn gynted a phosibl.

## Cystadlaethau Dawnsio Ysgolion Cynradd

Cynhelir yr uchod yn Hafren, Y Drenewydd ar ddydd Mercher, 2 Mawrth, i ddechrau yn brydlon am 4y.h. Bydd mynediad i'r Eisteddfod yn £5 i oedolion a £2.50 i ddisgyblion Ysgolion Uwchradd.

Disgwylir i bawb sydd yn cystadlu i gyrraedd yn brydlon ac i fod yn barod i gystadlu ar amser. Ni fydd yn bosib i gadw cystadlaethau ar agor i unrhywun sy'n cyrraedd yn hwyr.

Mae'r rhaglen a'r trefn cystadlu wedi ei osod gan Swyddfa'r Urdd eisoes. Os bydd angen newid trefn cystadlu mewn unrhyw fodd, Staff yr Urdd yn unig sydd a'r hawl i wneud hyn.

Mae nifer o reolau wedi cael eu gosod gan Dîm Rheoli'r Theatr, a bydd rhaid cadw at rhain. Maent fel a ganlyn;

## Mynediad Cefn Llwyfan

Er budd diogelu plant, bydd mynediad i gefn llwyfan, ystafelloedd newid ac ardal ystafelloedd newid yn cael eu cyfyngu a'u monitro'n ofalus. Dim ond oedolion awdurdodedig a chystadleuwyr fydd yn cael mynediad i'r ardal yma. Bydd ysgolion yn derbyn bandiau braich oddi wrthym yn ôl y nifer o gystadleuwyr/cystadlaethau sydd ganddynt. Cyfrifoldeb yr ysgol yw gwneud yn siwr eu bod yn dosbarthu'r bandiau yma i unigolion sydd â gwiriad DBS/CRB dilys. Bydd stiwardiaid mewn lle wrth ddrws y llwyfan ac wrth fynedfa'r ystafelloedd newid i reoli hyn.

**BYDD UNIGOLION HEB FAND BRAICH AR EI ARDDWRN YN CAEL EU GWAHARDD O'R ARDAL YMA.**

Maldwyn

**Côd Ymddygiad**

Mae'r theatr wedi darparu côd ymddygiad (amgaeëdig) ac 'rydym yn eich annog i edrych drosto cyn yr Eisteddfod.

**Seddi Cystadleuwyr a Staff**

Ni fydd gan gystadleuwyr yr hawl i eistedd ar y llawr o flaen y llwyfan, fodd bynnag, mae'r 5 rhes gyntaf o seddi yn y theatr (AA-D) wedi eu neilltuo ar eu cyfer. Disgwylir i staff/rhieni sy'n gwisgo bandiau braich ynghŷd â'r cystadleuwyr i eistedd yn y seddi yma.

**Seddi'r Cyhoedd (E-P a'r balconi)**

Oherwydd y galw mawr am seddi, ni chaniateir cadw seddi ar unrhyw amser yn ystod yr Eisteddfod. Bydd hyn yn cael ei fonitro gan stiwardiaid y Theatr.

'**Rwy'n siwr y byddwch yn cytuno ac yn gwerthfawrogi nad oes unrhyw leoliad arall yn fwy addas ar gyfer cynnal yr Eisteddfod yma ar ran maint y llwyfan a nifer y seddi. Ar adegau yn ystod yr Eisteddfod fe all mynediad gael ei gyfyngu pe bai'r theatr yn llawn. Felly, gofynnwn i chi hysbysu'r rhieni a chefnogwyr i fod yn amyneddgar gan y bydd seddi yn cael eu rhyddhau yn aml. Mae'n hanfodol ein bod yn gwerthfawrogi ac yn dilyn rheolau'r Theatr trwy gydol yr amser.**

*****Newydd ar gyfer eleni – bydd linc fideo yn cael ei ddarparu yn y cyntedd i'r rhai sydd yn aros am seti*****

Yn gywir

David Oliver

Swyddog Datblygu Maldwyn

Swyddfa'r Urdd, Yr Hen Goleg, Heol yr Orsaf, Y Drenewydd, Powys. SY16 1BE
01686 614034 / 038 | david@urdd.org | Janisl@urdd.org | eurgainhaf@urdd.org

Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**
Prif Weithredwr: **Efa Gruffudd Jones**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481